| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO.** |
| **DYDDIAD** | **20 CHWEFROR, 2014.** |
| **TEITL** | **ADOLYGU CYFANSODDIAD Y CYNGOR.** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **ADRODD WRTH Y PWYLLGOR AM WAITH Y GWEITHGOR.** |
| **AWDUR** | **CYNGHORYDD MICHAEL SOL OWEN, CADEIRYDD Y GWEITHGOR.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **DILYS PHILLIPS, SWYDDOG MONITRO.** |

1. Sefydlwyd y Gweithgor Cyfansoddiad i ymgymryd â'r gwaith manwl o adolygu Cyfansoddiad y Cyngor a phenodwyd 7 aelod o'r Pwyllgor arno sef y Cynghorwyr: Michael Sol Owen; Trefor Edwards; John Pughe Roberts; Gethin Glyn Williams; Dafydd Meurig; Dilwyn Morgan; Robert Wright.

2. Mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ddwy waith ar y 3ydd o Ragfyr a 16eg o Ionawr ac mae dau gyfarfod arall wedi eu rhaglennu, sef yr 20fed o Chwefror a'r 18fed o Fawrth.

3. Diben sefydlu'r Gweithgor oedd i adolygu Cyfansoddiad y Cyngor gyda'r bwriad o gymeradwyo dogfen gyfansoddiadol newydd i'w hargymell i'r Cyngor llawn i'w mabwysiadu yn ei gyfarfod blynyddol ar y 1af o Fai. Mae'r Cyfansoddiad ar ei newydd wedd ar ffurf sydd yn safonol i holl gynghorau Cymru. Mae wedi ei lunio gan gymdeithas sydd yn cynrychioli Swyddogion Monitro yng Nghymru gyda chefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru. Lluniwyd y Cyfansoddiad safonol oherwydd bod y gyfraith yng Nghymru fel mae'n ymwneud a llywodraeth leol yn gwahaniaethu gryn dipyn oddi wrth y gyfraith yn Lloegr erbyn hyn yn sgil penderfyniadau gan Lywodraeth Cymru ynghyd a'r ffaith bod bob cyngor yng Nghymru erbyn hyn yn gweithredu cyfundrefn Arweinydd a Chabinet.

4. Yn ei gyfarfod cyntaf mabwysiadodd y Gweithgor ddull gweithredu oedd yn golygu ei fod yn edrych yn fanwl ar bedair rhan o'r Cyfansoddiad ym mhob cyfarfod ac yn ymgynghori ar unrhyw newidiadau iddynt gyda budd-ddeiliaid perthnasol (e.e. yr Arweinydd a'r Cabinet, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Fforwm Cadeiryddion Craffu, a.y.b.).

5. Atodir er gwybodaeth i'r Pwyllgor, yr amserlen sydd yn dangos y gwahanol rannau o'r Cyfansoddiad sydd yn derbyn sylw'r Gweithgor a'r cyrff yr ymgynghorir â nhw.

6. Ble bynnag y bo'n bosibl, mae'r Gweithgor wedi cadw at drefniadau llywodraethu presennol y Cyngor ac ychydig o newidiadau o sylwedd fydd yn cael eu hargymell er bod ffurf y Cyfansoddiad yn dra gwahanol i'r un presennol. Lle bo newidiadau sydd yn sylweddol wahanol i'r trefniadau presennol, bydd angen hysbysu yr aelodau o hynny cyn cyfarfod y Cyngor ar y $1^{af}$ o Fai a bydd y Gweithgor yn rhoi ystyriaeth i'r drefn o wneud hynny yn ei gyfarfod nesaf.

7. Gan nad oes cyfarfod eto o'r Pwyllgor hwn cyn y Cyngor llawn, ac fel y gwelir, fod peth gwaith eto i'w gyflawni, gofynnir i'r Pwyllgor awdurdodi'r Gweithgor i gyflwyno ei adroddiad yn uniongyrchol i sylw'r Cyngor.

**ARGYMHELLIAD.**

8. Gofynnir i'r Pwyllgor :-

   (a) dderbyn yr adroddiad a nodi gwaith y Gweithgor;

   (b) awdurdodi'r Gweithgor i gyflwyno ei adroddiad ar y Cyfansoddiad diwygiedig i'r Cyngor ar y $1^{af}$ o Fai.

**ATODIAD**

| ADRAN | PENNAWD | YMGYNGHORAI | DYDDIAD. |
|---|---|---|---|
| 4 | Y Cyngor | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Mawrth 18. |
| 5 | Y Weithrediaeth | Cabinet | Ionawr 16. |
| 6 | Yr Arweinydd | Cabinet | Ionawr 16. |
| 7 | Pwyllgorau Craffu | Fforwm Cadeiryddion Craffu | Ionawr 16. |
| 9 | Rheoleiddio | Pwyllgorau Cynllunio a Thrwyddedu | Mawrth 18 |
| 12 | Cyllid | Pennaeth Cyllid | Chwefror 20 |
| 13 | Penderfyniadau Dirprwyedig | Grŵp Rheoli<br>Cabinet | Chwefror 20 |
| 14 | Mynediad at Wybodaeth | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | Mawrth 18 |
| 15 | Cyllideb a Pholisi | Fforwm Cadeiryddion Craffu | Ionawr 16 |
| 16 | Rheolau Ariannol | Pennaeth Cyllid | Chwefror 20 |
| 19 | Côd Ymarfer Cynllunio | Pwyllgor Cynllunio | Mawrth 18 |
| 21 | Protocol Cysylltu Aelod-Swyddog | Pwyllgor Safonau | Chwefror 20 |